# Cyrchfan Conwy

# Cyfarfod Is-Grŵp Strategaeth / Cynllun Gweithredu

# Dydd Iau 6 Ionawr 2022

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Jonathan Hughes (JH) | Snowdon Craft Beer Ltd |
| Jasmin Koffler (JK) | Swyddog Prosiect Twristiaeth ac Adfywio, CBSC |
| Tamzyn Lawrence (TL) | t-l-c, Betws-y-coed |
| Angharad Mair Owen (AO) | Parc Gwyliau Tŷ Gwyn |
| Jon Merrick (JM) | Rheolwr Busnes a Thwristiaeth, CCVBC |
| Sally Paveley (SP) | The Motorsport Lounge |
| Tansy Rogerson (TR) | Armadillo Events |
| Nigel Treacy (NT) | Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno |
| Adam Williams (AW) | Pier Llandudno, Tir Prince, Kinmel Arms |
| Dana Williams (DW) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Clive Wolfendale (CW) | Adferiad Recovery |
| Tracey Woodbine (TW) | Woody's Luxury Glamping |
| Kim Nicholls (KN) | Cofnodwr, CBSC |

**1. Cyflwyniad a Chroeso**

Croesawodd JM bawb i Gyfarfod cyntaf yr Is-Grŵp Strategaeth/Cynllun Gweithredu.

**2. Trosolwg o Gyrchfan Conwy**

Dechreuodd Cyrchfan Conwy oddeutu 2010. Roedd yn fenter ar draws Gogledd Cymru i sefydlu fforymau ar gyfer busnesau twristiaeth. Conwy oedd un o'r siroedd cyntaf i ddechrau cyfarfod.

Mae yna bedwar ysgogwr allweddol yn y Cylch Gorchwyl presennol:

1. Darparu cyfraniad lleol i weithrediad llwyddiannus Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy.
2. Cefnogi, monitro ac adolygu Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy
3. Rhoi arweiniad a dylanwadu ar gynllunio twristiaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol
4. Darparu'r porth ar gyfer cyfathrebu agored rhwng y fasnach a chyrff cyhoeddus

Mae grŵp Cyrchfan Conwy wedi datblygu'n dda dros y blynyddoedd ac wedi dylanwadu ar Gonwy.

Drwy greu'r grŵp Cyrchfan Conwy, mae CBSC wedi ceisio rhoi penderfyniadau yn nwylo busnesau twristiaeth. Er enghraifft, cafodd y Cynllun Rheoli Cyrchfan ei ysgrifennu gan Cyrchfan Conwy a'i gymeradwyo gan CBSC.

Mae Cyrchfan Conwy wedi'i ailstrwythuro ar gyfer 2022.

Nigel Treacy yw Cadeirydd prif Grŵp Cyrchfan Conwy. Nid yw Is-Gadeirydd wedi'i ethol eto ond bydd yn rhaid dewis o Gadeiryddion y pump is-grŵp.

Mae'r pum grŵp fel a ganlyn:

1. Sgiliau
2. Rheolaeth
3. Marchnata
4. Strategaeth/Cynllun Gweithredu
5. Cynllun Gwybodaeth i Dwristiaid / Llysgennad Conwy

Mae yna oddeutu 16 aelod ym mhob grŵp.

Mae yna hefyd Fwrdd Cyrchfan Conwy sy'n cynnwys: Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cadeiryddion y pump is-grŵp, cynrychiolydd Croeso Cymru (Andrew Forar), Aelod Cabinet Datblygu Economaidd a Hamdden CBSC (Cyng. Louise Emery) a Rheolwr Twristiaeth CBSC (Jon Merrick)

Bydd Cadeirydd Cyrchfan Conwy hefyd yn eistedd ar Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru a gynhelir gan Croeso Cymru

**3. Ethol Cadeirydd Grŵp Sgiliau**

Etholwyd Clive Wolfendale yn Gadeirydd y grŵp Strategaeth/Cynllun Gweithredu

**4. Cylch Gorchwyl**

CAM GWEITHREDU – Bydd JM yn rhannu prif Gylch Gorchwyl Cyrchfan Conwy gyda'r grŵp hwn

Bydd y Grŵp Strategaeth/Cynllun Gweithredu angen datblygu eu Cylch Gorchwyl eu hunain.

CAM GWEITHREDU – JM a CW i ddatblygu Cylch Gorchwyl yn seiliedig ar brif feysydd a dosbarthu drafft i'r grŵp

**5. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol – prif feysydd i ganolbwyntio arnynt**

Gweledigaeth JM ar gyfer y grŵp yw i'r grŵp:

- Diweddaru'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a Chynllun Gweithredu cefnogol a monitro darpariaeth. Angen cymryd i ystyriaeth bod Covid wedi effeithio ar waith a hamdden. Mae yna hefyd bosibilrwydd o dirwasgiad.
- Ystyried twristiaeth gynaliadwy
- Cynnwys y gymuned leol.
- Mae CBS Conwy yn cymryd briff gwylio ar sut mae ALlau eraill yn datblygu ac yn gwneud penderfyniadau hysbys

**Sylwadau gan y grŵp**

- Mae **gwybodaeth a data** yn allweddol. Mae cael y wybodaeth hon bob amser yn her. Angen bod yn gyfarwydd â phroses monitro ynglŷn â materion cyrchfan a datblygu dull/protocol ar gyfer gwneud hyn.

- **cysylltedd a llywodraethu –** rydym angen eglurder am waith y grŵp hwn ynglŷn â rheoli'r cyrchfan o fewn prif grŵp Cyrchfan Conwy a CBSC. Rydym angen coeden deulu o adrannau perthnasol CBSC i ddeall cysylltedd a llywodraethu. CYNLLUN GWEITHREDU – JM i ddarparu a dosbarthu coeden deulu twristiaeth o Lywodraeth Cymru i lawr
- **dilyn y drafodaeth –** angen ar ymweliadau ar lawr gwlad yn ogystal â chyfarfodydd yn unig. Fodd bynnag, angen bod yn ymwybodol o argaeledd aelodau ac amser i ymrwymo i hyn.
- **dysgu o'r gorffennol a sefyllfa bresennol –** beth yw'r patrwm wrth symud ymlaen? Oes yna unrhyw adborth y gallwn ddysgu ohono? Sut ydyn ni'n rheoli ôl-Covid? Angen gweithio gyda'r gymuned leol a datblygu ffordd ymlaen cadarnhaol
- **buddsoddiad ariannol –** angen cefnogi'r stryd fawr a manwerthu. Mae refeniw o ardrethi a threthi angen cefnogi busnesau. Angen annog mwy o nifer yr ymwelwyr i'r stryd fawr ac anelu am safon uchel o siopau i ddenu ymwelwyr a bobl leol
- **sbwriel a glanweithdra –** angen dangos balchder yn yr ardal.
- **Siopau gwag –** arwain at fwy o siopau gwag
- **Stryd fawr yn newid –** mae ymgynghoriad wedi dangos bod y stryd fawr yn newid ac felly mae cynllunwyr tref angen newid eu ffordd o feddwl i ddelio â hyn. Roedd NT yn anghytuno â hyn ac yn teimlo y dylai cyrchfannau arfordirol/twristiaeth wneud siopa yn rhan annatod o'r profiad gwyliau. Cytunodd AW gan ddweud fod y siopau ar y pier yn rhan o'r atyniad cyffredinol ac yn gwneud y profiad twristiaeth yn fwy pleserus sydd yn ei dro yn arwain at ddychwelyd. Mae stryd fawr cyrchfan i dwristiaid yn wahanol i stryd fawr tref arferol
- **ymwelwyr posibl –** mae hwn yn faes sy'n newid ar hyn o bryd. Angen nodi ymwelwyr posibl e.e teuluoedd, ymwelwyr dramor ac ati.
- **Cynnyrch unigryw –** brandiau sydd ond yn gallu cael eu prynu yn y cyrchfan. e.e. brand gin/whisgi sydd ond yn gallu cael ei brynu ar y safle.
- **gwahanol anghenion twristiaeth -** angen nodi proffiliau ymwelydd. Anghenion gwahanol pobl ifanc a'r genhedlaeth hŷn. Beth maen nhw eisiau?
- **ymwelwyr gwerth uwch –** angen anelu i ddenu
- **amgylchedd gwyrdd –** e.e. Gwefrwyr cerbydau trydan – gwneud yn addas ar gyfer ceir trydan, paneli solar yn y dyfodol ac ati.
- **seilwaith yn seiliedig ar anghenion twristiaeth –** toiledau – angen diweddaru i daliadau digyswllt, wifi, mynediad i'r anabl, safonau uchel o lanweithdra**.**
- **Parcio –** yn fater yn Llandudno yn arbennig.
- **Sesiwn Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau –** nodi sut mae awgrymiadau yn dod o fewn cyfrifoldeb y grŵp hwn neu pa un a ddylai hyn gael ei drosglwyddo i is-grwpiau eraill
- **toiledau –** mae cymunedau lleol yn cymryd drosodd toiledau a gynhelir gan CBSC
- **cynllun/strategaeth tref –** dymuno cwrdd gyda rhywun fyddai'n gallu amlinellu'r cynllun/strategaeth tref CBSC ar gyfer y deng mlynedd nesaf neu fwy ynghyd ag unrhyw gynlluniau cynnal a chadw ffyrdd/palmentydd. Beth yw'r rhaglenni buddsoddiad mawr ar gyfer CBSC?
- CYNLLUN GWEITHREDU – JM i rannu adroddiad a gomisiynwyd i grŵp Llandudno sy'n edrych 20-30 mlynedd ymlaen. Mae'r adroddiad hwn yn benodol i Landudno ond byddai'n ddefnyddiol

- CAM GWEITHREDU – JM i weithredu cais i wahodd Cyng Greg Robbins i siarad am isadeiledd a chynlluniau presennol CBSC

Roedd JM yn nodi:

- Mae canol trefi yn feysydd blaenoriaeth ar draws Cymru gyda chyllid yn cael ei ddarparu. Angen cysylltu â threftadaeth, diwylliant a digwyddiadau
- Mae CBSC yn cynnal arolwg ymwelwyr blynyddol yn defnyddio cronfa ddata 50-60k o ymwelwyr. Mae arolygon penodol yn gallu cael eu datblygu.
- Dylai'r is-grŵp Cyrchfan Conwy gydgysylltu i gydlynu ac alinio prosiectau
- Mae llawer o'r materion sy'n wynebu seilwaith am wyth wythnos yn yr haf yn unig. Angen meddwl y tu allan i'r bocs o bosibl e.e. toiledau dros dro

**Cytunwyd ar y canlynol hefyd.**

- **Hyblygrwydd –** dylai'r grŵp fod yn hyblyg er mwyn gwahodd gwesteion i'r cyfarfod
- **Cyfeiriad e-bost –** roedd yr aelodau yn hapus i rannu eu cyfeiriad e-bost
- **Iaith –** cytunwyd y byddai'r cofnodion yn dderbyniol yn Saesneg yn unig, oni bai y rhennir yn gyhoeddus
- **Cyfrinachedd –** mae cyfarfodydd yn gyfrinachol i alluogi aelodau i roi eu barn yn ddiogel
- **Hybu gwaith Cyrchfan Conwy** i gynulleidfa ehangach drwy gronfa ddata busnes CBSC, gwefan a chyfryngau cymdeithasol.
- **Cymuned Leol –** Roedd JM yn nodi mai cyfeiriad twristiaeth yw sicrhau bod y gymuned leol yn ganolbwynt twristiaeth. Mae Conwy yn cynnal briff gwylio ar hyn o bryd. DC i gynnwys cymunedau lleol.
- **Amlder cyfarfodydd –** ail gyfarfod ar ddechrau Ebrill i gymeradwyo Cylch Gorchwyl. Cyfarfodydd misol am y chwarter nesaf yna adolygiad. CAM GWEITHREDU – JM i gydlynu dyddiadau gyda CW. KN i anfon dyddiadau allan
- **Cynrychiolwyr CBSC –** bob amser ar gael i gydlynu, hwyluso a chymryd nodiadau mewn cyfarfodydd
- **Aelodau yn methu bod yn bresennol –** gallu cyfrannu drwy e-bost neu o bosibl cwrdd yn unigol gyda'r Cadeirydd**.**
- **Grŵp WhatsApp –** pawb yn cytuno y byddai grŵp yn ddefnyddiol er mwyn rhannu syniadau ac ati rhwng cyfarfodydd

KN
10.01.22.